# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Ionawr 2018

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod

(09:15 - 09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:30)

## 2 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol a Meddyliol Plant a Phobl Ifanc - Sesiwn dystiolaeth 9

(09:30 - 10:15) (Tudalennau 1 - 28)

**Samariaid Cymru**

Sarah Stone, Cyfarwyddwr Gweithredol

Emma Harris, Swyddog Polisi a Chyfathrebu

Carol Fradd, Arweinydd Gweithredol i Ysgolion

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

CYPE(5)-01-18 - Papur 1 - Samariaid Cymru

## Egwyl

(10:15 - 10:30)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 3 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol a Meddyliol Plant a Phobl Ifanc – Sesiwn dystiolaeth 10

(10:30 - 11:30)

**Tîm Dyletswydd Brys y GIG / Ymarferwyr Gofal Argyfwng**

Sharon Stirrup, Rheolwr Gweithredol CAMHS – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Darren Rennie, Ymarferydd Tîm Triniaeth Ddwys Gydgysylltiedig (CITT) – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Caren Weaver, Nyrs Argyfwng - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Dr Mark Griffiths, Cyfarwyddwr Clinigol, CAMHS – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Melanie Jones, Nyrs Gyswllt Argyfwng CAMHS – Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Mae ymatebion cyffredinol gan yr holl Fyrddau Iechyd a Chonffederasiwn GIG Cymru wedi'u cyhoeddi ar dudalen ymgynghoriad yr ymchwiliad

## 4 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol a Meddyliol Plant a Phobl Ifanc – Sesiwn dystiolaeth 11

(Tudalennau 29 – 31)

**Cynrychiolwyr yr Heddlu**

Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jonathan Drake, Awdurdod Heddlu De Cymru ac Arweinydd Rhanbarthol Cymru ar gyfer Iechyd Meddwl, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu
Ditectif Prif Arolygydd Alistair Mitchell, Heddlu De Cymru
Uwcharolygydd Nicholas McLain, Heddlu Gwent

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-18 – Papur 2 - Awdurdod Heddlu De Cymru

## 5 Papurau i'w nodi

(12:15)

### 5.1 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Pecyn o fuddsoddiad yn y rhaglen drawsnewid anghenion dysgu ychwanegol

(Tudalennau 32 - 38)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-18 - Papur i'w nodi 1

### 5.2 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Gweithredu'r rhaglen drawsnewid anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

(Tudalennau 39 - 42)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-18 - Papur i'w nodi 2

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(IX) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

(12:15)

## 7 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc - Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(12:15 - 12:30)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

CYPE(5)-01-18 – Papur 1

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee

Ymchwiliad i Gwella Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc | Inquiry into The Emotional and Mental Health of Children and Young People

EMH 33

Ymateb gan: Y Samariaid

Response from: Samaritans

1. Mae Samariaid Cymru'n croesawu'r cyfle hwn i ymateb i'r ymchwiliad hwn i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc. Ers lansio ein hadnodd iechyd emosiynol dwyieithog i ysgolion yng Nghymru yn 2014, rydym wedi gweithio'n helaeth ar feysydd polisi sy'n ymwneud ag iechyd emosiynol plant a phobl ifanc. Mae pobl ifanc yn grŵp sy'n wynebu risg uchel o ddatblygu salwch meddwl neu o hunanladdiad, ac yng Nghymru rydym yn gweld cynnydd sylweddol yn y ffactorau rhagflaenol fel hunan-niwed, derbyniadau i ysbytai oherwydd anhwylderau bwyta, ac atgyfeiriadau at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a all gyfrannu at syniadaeth neu fwriad hunanladdol ymysg y glasoed. Yn 2016, cafwyd 16 o hunanladdiadau yn y grŵp oedran 15 i 19 yng Nghymru, y gyfradd uchaf ers 5 mlynedd a'r uchaf ond un ers 12 blwyddyn.

## 2. CAMHS arbenigol

2.1. Er y croesewir y buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer CAMHS yng Nghymru, mae'r pwysau cyffredinol ar wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru ar gynnydd. Rhwng 2012 a 2016, gwelwyd 100% o gynnydd yn y galw am CAMHS.[1] Yn dilyn y cyhoeddiad cychwynnol, roeddem yn falch o weld yr ymdrech i wneud CAMHS yn fwy ymatebol trwy roi pwyslais ar wella mynediad at therapïau seicolegol.

2.2. Rydym yn credu y gall mynediad cyflym ac amserol at therapïau seicolegol alluogi a gwella ymadferiad, a bod yn fath o ymyrraeth gynnar a all leihau'r angen am wasanaethau eilaidd. Er y gefnogaeth drawsbleidiol, a'r ffocws ar fynediad i therapïau seicolegol yn Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP), Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru), mae mynediad at therapïau seicolegol yn dal i fod yn fater problemus yng Nghymru.

2.3. Gall iechyd meddwl plant a phobl ifanc ddirywio'n sylweddol yn ystod amseroedd aros hir am therapïau seicolegol. Mae *Rhoi Iechyd Meddwl ar yr Agenda,* maniffesto cydweithredol a gefnogwyd gan Samariaid

[1] Iechyd Meddwl yng Nghymru: Ffeithiau Sylfaenol, Mental Health Foundation (2016)

Cymru, yn dweud y gall amseroedd aros hir arwain at "*absenoldeb o addysg neu'r gwaith, cyfnodau yn yr ysbyty neu hyd yn oed digartrefedd. Gall mynediad cynnar at therapïau siarad/seicolegol atal dirywiad ac osgoi'r angen am wasanaethau mwy acíwt, sydd yn fanteisiol i'r person a'r pwrs cyhoeddus.*"[2]

2.4. Er y bu lleihad yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n aros rhwng 4 a 26 wythnos, yn sgil cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn 2015, roedd mwy na 1,000 o 18,000 a atgyfeiriwyd at wasanaethau iechyd meddwl yn 2016 wedi aros mwy na 6 mis am yr apwyntiad cyntaf.[3] Gwelwyd y lleihad cychwynnol hwn mewn amseroedd aros trwy adolygu papurau pob Bwrdd Iechyd, adolygu'r Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru a thrwy ofyn yn uniongyrchol i'r Byrddau Iechyd am y wybodaeth, yn hytrach na'r data a gesglir fel mater o drefn. Mae hyn yn pwysleisio'r hyn y credwn yw un o'r rhwystrau allweddol i wella CAMHS yng Nghymru yn gyffredinol.

2.5. Er y cyflwynir targed o 56 diwrnod i amseroedd aros ar gyfer ymyriadau gofal sylfaenol yn y Mesur, sydd i'w groesawu, ac sydd wedi'i leihau ers hynny i 28 diwrnod, nid oes gofyniad statudol i'r byrddau iechyd gasglu data penodol am amseroedd aros am therapïau seicolegol. Gan nad yw'r data hyn ar gyfer ymyriadau seicolegol yn cael eu casglu na'u cyhoeddi fel mater o drefn, mae'n anodd mesur maint y broblem. Cofnodir data cenedlaethol mewn perthynas ag apwyntiadau cyntaf ac nid ydynt yn cynnwys hyd yr amser mae pobl yn aros i gyd (o atgyfeiriad i driniaeth). Nid yw'r data'n cael eu rhannu yn ôl ardaloedd Byrddau Iechyd chwaith. Er mwyn sicrhau darlun cywir o CAMHS yng Nghymru, mae'n hanfodol casglu a chyhoeddi data ynghylch amseroedd aros a chanlyniadau cleifion fel mater o drefn.

## 3. Cymorth ar ôl gadael yr ysbyty

**3.1.** Mae hefyd yn hanfodol i fyrddau iechyd yng Nghymru gasglu a chyhoeddi data ar gyfer cymorth ar ôl gadael yr ysbyty i gleifion yn dilyn derbyniad oherwydd hunan-niwed neu argyfwng iechyd meddwl. Yn ôl Mind Cymru, ym mis Ebrill 2017, dim ond un bwrdd iechyd yng Nghymru sy'n cofnodi faint o bobl sy'n cael cyswllt dilynol amserol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae'r diffyg data ynghylch cymorth ar ôl gadael yr ysbyty yng Nghymru'n destun pryder difrifol. Dangosodd arolwg o fwy na 850 o bobl â phroblemau iechyd meddwl ynghylch eu profiadau ar ôl gadael yr ysbyty yng Nghymru fod y rhai na chawsant gymorth dilynol priodol (ar ôl saith diwrnod neu ddim o gwbl) dwywaith yn fwy tebygol o geisio lladd eu hunain a thraean yn fwy tebygol o niweidio eu hunain, o'u cymharu â'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod

[2] Rhoi Iechyd Meddwl ar yr Agenda, Gofal a Mental Health Foundation (2015)
[3] *Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a r Glasoed (CAMHS): Datganiad Sefyllfa*, Cyngor Iechyd Cymuned (2017)

wedi cael cymorth dilynol cyn pen 7 diwrnod ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty.[4]

**3.2.** Canfu ymchwil gan yr NSPCC fod 1,193 o bobl ifanc wedi cael eu derbyn i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yng Nghymru oherwydd hunan-niwed yn 2015. Mae'r nifer hon wedi cynyddu 41% yn y tair blynedd ddiwethaf.[5] Mae strategaethau cenedlaethol i atal hunanladdiadau yn cydnabod bod gan wasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o drin pobl sydd wedi hunan-niweidio neu wedi ceisio lladd eu hunain. Mae gan o leiaf hanner y bobl sy'n marw trwy hunanladdiad hanes o hunan-niwed, ac mae un o bob pedwar wedi mynd i'r ysbyty oherwydd hunan-niwed yn ystod y flwyddyn flaenorol.[6] 3.1. O gofio'r risg arbennig o uchel o hunanladdiad mae pobl sy'n mynd i'r ysbyty a'r adran Damweiniau ac Achosion Brys ar ôl hunan-niweidio yn ei wynebu, mae'n hanfodol bod gofal dilynol cyflym ar gael bob amser. Mae'n hanfodol bod unrhyw un sydd wedi hunan-niweidio'n cael ei drin â pharch ac yn cael asesiad priodol a gofal dilynol.

**4. Cysylltiadau ag Addysg (deallusrwydd emosiynol a mecanweithiau ymdopi iach)**

4.1 Yn dilyn adolygiad Donaldson a chyhoeddi'r cwricwlwm newydd yng Nghymru, rydym wedi lobio'n helaeth am newid gwirioneddol y gallai'r datblygiadau addysgol hyn ei greu. Fel un o ddibenion creiddiol y cwricwlwm newydd ac yn un o'r chwe maes dysgu a phrofiad, mae iechyd a lles wedi symud yn nes at frig yr agenda addysg yng Nghymru. Rydym wedi croesawu'r ffocws hwn, ond yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd rhoi'r maes dysgu a phrofiad hwn ar waith, a'i botensial.

4.2 Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn orfodol i holl ddisgyblion Cyfnodau Allweddol 1, 2, 3 a 4 (5-16 oed), ac yn cynnwys ystod helaeth ac eang o bynciau gan gynnwys addysg rhyw, ysbrydolrwydd, bwyta'n iach, cyngor gyrfaoedd a diogelwch ar-lein. Mae cynlluniau gwersi sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles emosiynol, neu iechyd meddwl, hefyd ar gael yn rhwydd i ysgolion o fewn y cylch gwaith hwn. Fodd bynnag, gyda phwysau cynyddol ar ysgolion i ddarparu fframwaith ABCh mor gadarn, caiff gwersi iechyd emosiynol ac iechyd meddwl eu heithrio yn aml.

4.3 Ym mis Awst 2017, lansiasom ail alwad ymgyrchu am i wersi iechyd emosiynol ac iechyd meddwl fod yn orfodol yng Nghymru. Ym mis Medi eleni, rydym wedi croesawu cyhoeddi treial dwy flynedd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn caniatáu i ddisgyblion â phroblemau iechyd meddwl mewn mwy na 200 o ysgolion yng Nghymru gael cymorth cynnar gan ymarferwyr CAMHS ar y safle. Er bod y math hwn o gysylltu

---

[4] *Thousands left to cope alone after leaving mental health hospital - putting their lives at risk* Mind Cymru (Ebprill 2017)

[5] *Pryder am achosion cynyddol o blant yn hunan-niweidio*, BBC Cymru (Rhagfyr 2016)

[6] *How local authorities can prevent suicide*, Samariaid (2017)

gwasanaethau addysg ac iechyd yn hanfodol, hoffem achub ar y cyfle hwn i bwysleisio bod ein galwad am weithredu yn dal i gael ei gosod yn nes at y gwraidd ac yng nghyd-destun sylfaenol ymyrraeth gynnar trwy adeiladu gwydnwch.

4.4 Er ein bod yn croesawu unrhyw fenter i helpu pobl ifanc sy'n dioddef o afiechyd meddwl yng Nghymru, ein prif ffocws yw lleihau'r tebygrwydd y bydd salwch meddwl yn datblygu yn y lle cyntaf. Er mwyn ymdrin â chyfnodau o les meddyliol isel a'u rheoli, mae angen i ddisgyblion ddatblygu a meithrin eu gwydnwch emosiynol. Gall meithrin gwydnwch helpu plant a phobl ifanc i weld methiannau a chamgymeriadau fel gwersi i ddysgu oddi wrthynt, ac fel cyfleoedd i dyfu, yn lle eu gweld fel adlewyrchiad negyddol o'n galluoedd neu ein hunan-werth. Mae datblygu gwydnwch yn cynyddu'r tebygrwydd y bydd pobl yn teimlo ymrwymiad i'w bywydau a'u nodau, a bod â rheswm cymhellol i godi o'r gwely yn y bore. Mae tystiolaeth yn dangos bod cael eich addysgu am iechyd emosiynol yn gallu lleihau problemau iechyd meddwl penodol a helpu gyda sgiliau cyfathrebu, sgiliau cymdeithasol, cydweithrediad, gwydnwch, ymdeimlad o optimistiaeth, empathi, hunan-gysyniad cadarnhaol a realistig, a sgiliau datrys problemau. Gwyddom hefyd fod gan blant â lefelau uwch o les emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol, ar gyfartaledd, lefelau uwch o gyflawniad academaidd, a'u bod yn ymgysylltu'n well â'u haddysg.

4.5 Mae cael ei haddysgu am iechyd emosiynol yn helpu pobl i fod yn llai rhagfarnllyd, sy'n lleihau'r stigma ynghylch gofyn am gymorth. Un o brif bryderon y Samariaid yw'r stigma y bydd plant a phobl ifanc yn ei brofi yn yr ysgol pan fo arnynt angen cael cymorth oherwydd problemau lles meddyliol isel, neu broblemau iechyd meddwl penodol. Yn ystod yr amser a dreuliasom yn gweithio gyda Thîm Ysgolion Iach Caerdydd, canfuom mai stigma yw un o'r prif resymau pam nad yw disgyblion yn cael cymorth trwy eu gwasanaeth cwnsela. Rydym hefyd yn ymwybodol mai'r amharodrwydd hwn i geisio cymorth, ynghyd â diffyg gwybodaeth ynghylch iechyd emosiynol a mecanweithiau ymdopi iach, a all achosi i iechyd meddwl plentyn waethygu ac arwain yn y pen draw at atgyfeirio'r disgybl yn ddiangen at CAMHS a gormod o atgyfeiriadau at CAMHS yn genedlaethol. Mae'n hollbwysig nad ydym yn trin trallod emosiynol fel mater meddygol yn ystod blynyddoedd ffurfiannol plant a phobl ifanc. Er ein bod yn dadlau dros barch cydradd rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl yng Nghymru, mae'n bwysig nodi'r agweddau cymdeithasol a diwylliannol ehangach ar y gymdeithas fodern sydd ohoni sy'n effeithio'n negyddol ar iechyd a lles meddyliol plant a phobl ifanc.

4.6 Mae plant heddiw yn cael eu geni i fyd cymhleth sy'n gallu bod yn anodd inni ei ddeall, lle mae'r cyfryngau cymdeithasol, defnydd o'r rhyngrwyd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn rhan annatod o'u datblygiad cynnar a'u plentyndod a'r cyfnod pan maent yn aeddfedu. Mae tystiolaeth gynyddol y gallai'r cyfryngau cymdeithasol achosi unigrwydd

ac iselder ymysg rhai yn eu harddegau. Mewn astudiaeth ddiweddar yn yr Unol Daleithiau ar effaith defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar deimladau o arwahanrwydd cymdeithasol, canfu Prifysgol Pittsburgh fod defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol am fwy na dwy awr y diwrnod yn dyblu'r tebygrwydd y bydd unigolyn yn dioddef arwahanrwydd cymdeithasol.[7] Ym mis Medi 2017, canfu astudiaeth a ariannwyd gan y llywodraeth fod gan un o bob pedair merch iselder clinigol erbyn iddynt gyrraedd 14 oed, ffigur syfrdanol sydd unwaith eto wedi'i briodoli i'r pwysau ac unigedd cynyddol a achosir gan y cyfryngau cymdeithasol.[8]

4.7 Rhaid inni wreiddio ymagwedd iechyd cyhoeddus at iechyd meddwl, trwy ganolbwyntio'n bennaf ar atal yn hytrach na gwella yn unig. Gall buddsoddi mewn atal ac ymyrraeth gynnar leihau costau dynol, cymdeithasol ac economaidd. Wrth i hanner yr holl broblemau iechyd meddwl ddechrau erbyn 14 oed, mae'r ddadl o blaid yr ymagwedd hon yn amlwg; y blynyddoedd ysgol yw'r cyfle hollbwysig i roi i blant a phobl ifanc y sgiliau y mae arnynt eu hangen i wynebu'r gymdeithas fodern maent yn rhan ohoni. Dylid edrych ar raglenni iechyd emosiynol mewn ysgolion fel math o hyrwyddo, atal ac ymyrraeth gynnar a all leihau'r pwysau ar CAMHS, lleihau problemau iechyd meddwl penodol, a gwella cyflawniad academaidd.

4.8 Mae'n destun pryder inni glywed y cyhoeddiad diweddar y bydd oedi cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y bydd ei gyflwyno cam wrth gam fel hyn yn rhoi mwy o amser i wireddu'r cyfleoedd yn y Maes Dysgu Iechyd a Lles. Credwn y dylai gwersi mewn iechyd emosiynol ac iechyd meddwl fod yn orfodol i bob ysgol uwchradd yng Nghymru ac yn rhan o'r cwricwlwm newydd yn y Maes Dysgu Iechyd a Lles. Ym mlwyddyn academaidd 2016/17, rydym wedi gweithio gyda phum ysgol yng Nghaerdydd i'w helpu i weithredu cynlluniau gwersi iechyd emosiynol (DYEG – Datblygu Ymwybyddiaeth Emosiynol a Gwrando) yn eu cwricwlwm. Rydym yn edrych ymlaen at asesu gwerthusiad y prosiect hwn ac yn falch o glywed y bydd yr ysgolion yn parhau i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

## 5. Hyfforddi Athrawon

5.1. Hoffem hefyd dynnu sylw at y bwlch sydd o ran iechyd emosiynol ac iechyd meddwl yn yr hyfforddiant i athrawon yng Nghymru. Mae hwn yn bryder cynyddol arall y gellid mynd i'r afael ag ef yn ystod y gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd cam wrth gam. Rydym yn credu y dylai'r staff addysgu presennol yn holl ysgolion Cymru gael hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol o iechyd emosiynol ac iechyd meddwl er mwyn meithrin hyder wrth addysgu'r pwnc. Dylem hefyd roi i staff addysgu

[7] *Social Media users more likely to feel isolated*, Medical News Today (2017)

[8] One in four girls have depression by the time they hit 14, study reveals, Guardian (Medi 2017)

newydd yr hyder a’r sgiliau mae arnynt eu hangen trwy wreiddio ymwybyddiaeth o iechyd emosiynol ac iechyd meddwl fel rhan o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Rydym yn falch o weld bod ‘*uwchsgilio athrawon i adnabod problemau lefel isel ac ymdrin â hwy’* wedi’i gynnwys yn y cyhoeddiad diweddar am y prosiect iechyd meddwl gwerth £1.4m mewn ysgolion. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau cysondeb ar draws yr holl leoliadau addysgol yng Nghymru a sicrhau bod gan y staff addysgu wedi’u paratoi i ymdrin ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl. Yn ystod ein sesiwn hyfforddi ar gyfer cynllun peilot DYEG yng Nghaerdydd, y pryder a godwyd amlaf oedd diffyg hyder y staff addysgu wrth ymdrin â chwestiynau anodd. O’r pum ysgol a gymerodd ran, cododd pob un fater peidio â gwybod sut i ymateb i achosion o hunan-niwed neu gwestiynau ynghylch teimladau hunanladdol. Mae’r diffyg hyder hwn i’w weld ymysg staff ABCh brwdfrydig, felly mae’n rhaid inni fod yn realistig ynghylch y nifer fawr o athrawon eraill yng Nghymru nad oes ganddynt yr hyder na’r wybodaeth i ymdrin â’r materion hyn. Yn ystod y cyfnod y buom yn ymgysylltu â staff addysgu, rydym wedi clywed clywsom am lawer o achosion lle cafodd disgyblion eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill, oherwydd nad oedd gan y bobl gyswllt gyntaf, yr athrawon eu hunain, yn gwybod sut i ymdrin â hwy.

5.2. Mae’n hanfodol inni wireddu potensial y cwricwlwm newydd. Bydd ei lwyddiant yn gwella dyfodol iechyd y cyhoedd yng Nghymru a gallai hyn, yn ei dro, arbed costau economaidd, iechyd ac yn bwysicaf oll, costau dynol inni. Yn olaf, rydym yn credu bod potensial y newid hwn yng Nghymru’n cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, yn arbennig o ran yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Byddai’r newid hwn yn cyfrannu at sylfaen gadarn i’r genhedlaeth nesaf; mae’n hanfodol creu cyfleoedd i’r bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee
Ymchwiliad i Gwella Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc | Inquiry into The Emotional and Mental Health of Children and Young People
EMH 28
Ymateb gan: Awdurdod Heddlu De Cymru
Response from: South Wales Police

**Consultation Response**

I refer to the CAMHS consultation on the Emotional and Mental Health of Children and Young People and the committee's inquiry to consider whether the review of CAMHS is on track to deliver the 'step-change' in CAMHS services that is needed under the following headings:
Specialist CAMHS.
Transition to Adult Services.
Links with education (emotional intelligence and healthy coping mechanisms).

South Wales Police (SWP) acknowledges the changes to CAMHS services facilitated by the additional funding from Welsh Government to improve services to children and young persons (C&YP's) under 18 years of age and report as follows under the above headings:

**Specialist CAMHS**
1.1 South Wales Police recognises the new service provision of the crisis liaison teams in each of it's 3 local health boards between the hours of 9am and 9.30 pm, with out of hours CAMHS On-Call maintained at the switchboard at the University Hospital of Wales. This service will provide vital contact advice which is required under the Police and Crime Act 2017 (when effective later this year) where officers must where practicable telephone for advice from a health care professional prior to arrest. The police officer must, if it is practicable to do so, consult with-

a) A registered medical practitioner,
b) A registered nurse,
c) An approved mental health professional.

1.2 For 2015/16 and 2016/17 the number of section 136 detentions has increased from 36 to 48 respectively against a total number of all detentions of 680 which represents a significant increase year on year for C&YP's. Whilst police officers are encouraged to use police protection powers under the Children's Act 1989 so as not to stigmatise children, officers are too often left with no choice but to invoke section 136 in the best interests of the child or young person.

1.3 Designated places of safety remain the same for C &YP's as they do for adults. However on occasions officers are encouraged/directed to use CAMHS establishments such as St David's Hospital in Canton, Cardiff. Whilst using these resources during office hours perhaps consideration should be given to having separate PoS's within each LHB or a regional facility such as Ty Llidiard as a hub for the reception of C&YP's detained under section 136.Completion of the requisite section 136 forms by CAMHS is indifferent and should be forwarded to the mental health act department in each LHB in every case.

1.4 Additionally, expanding the services of Ty Llidiard as a triage centre could facilitate the reception of C&YP's in need of specialist help. In August 2017 SWP dealt with a C&YP discharged from section by Ty Llidiard into the care of local services only to be re taken a short while later by police under section 136 to A&E, before being returned to Ty Llidiard where they were detained under the act. Such a facility would reduce demand on A&E departments.

1.5 SWP understands that there is insufficient in –patient capacity in Wales

1.6 Liaison and diversion services are yet to be determined by CAMHS in the SWP force area for C&YP's who have committed a crime under the Welsh Government's Policy Implementation Guidance on Addressing Mental Health Problems of Children and Young People in the Youth Justice System. By employing means designed to keep a small but often vulnerable group of children and young people out of the criminal justice system, it is more likely to stop problems from escalating and, critically help prevent the stigma and debilitating effect of a criminal record later on in life.

1.7 SWP acknowledges in cases of crime, specialist forensic opinion may be required from the CAMHS psychiatrist to the Forensic Adolescent Consultation Team (FACTS). This is also incorporated in the MOU on Murder /Manslaughter which will soon to be finalised with services.

1.8 SWP have in place the Welsh Accord for the Sharing of Personal Information (WASPI) agreement with the 3 LHB's in it's force area. Information sharing can on occasions be difficult to access and is an area for improvement.

**Transition to Adult Services**

1.9 SWP acknowledges that as a C&YP approaches the age of 18 there is difficulty in determining the appropriate action in the best interests of the C&YP. SWP advocate a joint partnership approach by CAMHS and adult services so that C&YP's do not fall between services.

**Links with Education (emotional intelligence and health coping mechanisms)**

2.0 SWP are aware of the services CAMHS provides but do not directly have involvement through the schools programme. We are therefore unable to comment further on any improvement to their service since implementing any changes. Anecdotally we are aware that there is a long waiting time for C&YP's identified as needing counselling services. Our schools community police officers (SCPO's) do not refer pupils into CAMHS and schools are not allowed to make direct referrals to CAMH's. The parents are advised to go to their GP. We understand that schools are unhappy with this direction. SCPO's may, however be aware of pupils currently either waiting for or receiving CAMHS services.

2.1 Children do not suddenly become unwell, then have a few months treatment and are cured. Meaningful provision means preventative steps must be taken to protect our young minds from an early age. We need far more robust education in our schools and care homes to identify the signs of mental health – and strategies and support put in place to help these C&YP's. It is also crucial that there are 'step down' facilities so C&YP's have the support to re integrate them into society and are not just referred back into the situation that caused their illness in the first instance.

I submit this response on behalf of South Wales Police to the children, Young people and education committee.

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Ein cyf/Our ref: MA(L)/KW/0528/17

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales

cc. Lynne Neagle AM
Cadeirydd

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
SeneddCYPE@assembly.wales

11 Rhagfyr 2017

Annwyl Simon,

Rwy'n ysgrifennu atoch gyda rhagor o fanylion am y pecyn £20 miliwn a fydd yn cael ei fuddsoddi yn rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Ym mis Mawrth, ysgrifennodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd atoch ynglŷn â'r pecyn cyllido, a dywedodd y byddai'r dyraniadau cyllideb ddangosol yn debygol o newid o ganlyniad i ymgysylltiad ac ymgynghoriad parhaus gyda phartneriaid cyflenwi.

Pan ymddangosodd gerbron eich pwyllgor ar 21 Medi, addawodd y Gweinidog ar y pryd y byddai'n ysgrifennu i amlinellu sut y byddai'r pecyn cymorth £20m ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn hwyluso a chefnogi'r broses o weithredu'r Bil, gan gynnwys sut y byddai'n cael ei broffilio ar gyfer awdurdodau lleol, ac i ddarparu gwybodaeth ichi ar sut y bydd y broses o weithredu'r Bil yn cael ei monitro.

Roedd adroddiad cyfnod 1 y pwyllgor ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn argymell y dylid sicrhau "tryloywder o ran y cyllid ychwanegol o £20 miliwn ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol". Hyderaf y bydd y llythyr hwn yn darparu hwnnw.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fy swyddogion wedi bod yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid i ddatblygu'r dull o gefnogi'r broses o weithredu'r fframwaith anghenion dysgu ychwanegol newydd. Daeth ymgynghoriad cyhoeddus ar sut y dylid gweithredu'r Bil, yn amodol ar gael ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol, i ben ym mis Mehefin. Rydym wedi myfyrio ar yr adborth a gafwyd ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a chymorth wrth drawsnewid ac wedi mireinio ein rhagolygon ar gyfer y gyllideb yn unol â hynny. Cyhoeddais ddatganiad ar 11 Rhagfyr yn amlinellu ein dull gweithredu arfaethedig, gan ddatgan ein bod, yn dilyn dadansoddiad o ymatebion yr ymgynghoriad, wedi ailstrwythuro ein hymrwymiadau cyllido gwerth £20 miliwn er mwyn eu cysoni'n well ag anghenion y sector.

Mae'r llythyr hwn yn nodi'r newidiadau i'r dyraniadau cyllido dangosol ar draws elfennau amrywiol y rhaglen drawsnewid. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth bellach mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd gan y pwyllgor ynglŷn â pha weithgareddau yn y rhaglen sy'n cael eu hariannu drwy ein buddsoddiad ychwanegol o £100 miliwn er mwyn codi safonau mewn ysgolion; pa gostau sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r Bil a pha gostau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad effaith rheoleiddiol diwygiedig fel costau trawsnewid y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt.

Rwyf hefyd wedi esbonio'r cysylltiad rhwng yr wybodaeth isod a'r argymhellion perthnasol eraill yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyfnod 1, sy'n ymhelaethu ar ymateb ffurfiol y cyn Gweinidog dros y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes i adroddiad y pwyllgor yn ei lythyr dyddiedig 17 Gorffennaf.

***Newidiadau i broffil cyllideb trawsnewid y system Anghenion Dysgu Ychwanegol***

Yn gryno, rwy'n disgwyl i elfennau gwaith dangosol y rhaglen drawsnewid gael eu proffilio dros y pedair blynedd ariannol nesaf, fel a ganlyn:

**Tabl 1: Dadansoddiad o elfennau gwaith rhaglen trawsnewid y system Anghenion Dysgu Ychwanegol**

| **Llif gwaith** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth ar gyfer gweithredu/ trawsnewid | 1,873,000 | 3,457,000 | 3,453,500 | 3,305,000 | **12,088,500** |
| Datblygu'r gweithlu | 843,000 | 2,081,000 | 2,081,000 | 2,292,000 | **7,297,000** |
| Codi ymwybyddiaeth | 237,500 | 142,500 | 167,500 | 105,000 | **652,500** |
| Cefnogi polisi | 82,500 | 55,500 | 34,000 | 34,000 | **206,000** |
| **Cyfanswm** | **3,036,000** | **5,736,000** | **5,736,000** | **5,736,000** | **20,244,000** |

Mae cyfanswm y gyllideb ddangosol ar gyfer y rhaglen drawsnewid yn parhau ar £20.244 miliwn rhwng 2017-18 a 2020-21, ac mae'r cyfansymiau blynyddol yn parhau'n ddigyfnewid. Fodd bynnag, mae'r dull o broffilio'r gyllideb rhwng elfennau amrywiol y rhaglen wedi newid.

Mae'r newidiadau'n adlewyrchu'r datblygiad yn ein ffordd o feddwl ynglŷn â rôl arweinwyr trawsnewid ADY, a fydd yn cael eu penodi yn yr hydref eleni. Ysgrifennodd y Gweinidog atoch ar 11 Gorffennaf am y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd y diwrnod hwnnw am yr arweinwyr trawsnewid, gan esbonio y byddai'r rolau hyn yn gyfrifol am reoli'r grantiau gweithredu ar ran awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach, ac y byddent yn cael eu crynhoi er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad yn cael yr effaith fwyaf.

Rydym wedi ailddyrannu swm sylweddol o'r gyllideb y rhaglen drawsnewid o elfen y gweithlu i'r elfen cymorth ar gyfer gweithredu a thrawsnewid, er mwyn cynyddu'r cyllid grant ar gyfer arweinwyr trawsnewid ADY, i'w ddefnyddio i gydlynu hyfforddiant a datblygu proffesiynol amlasiantaeth rhanbarthol ar y fframwaith deddfwriaethol newydd a'i oblygiadau i'r rhai sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY. Mae hyn yn adlewyrchu'r adborth i'r ymgynghoriad a nododd fod cyllid ar gyfer hyfforddi pob aelod o staff sy'n gysylltiedig ag ADY yn flaenoriaeth ar gyfer gweithredu, yn ogystal â hyfforddiant penodol ar gyfer y rhai â rolau a chyfrifoldebau newydd - er enghraifft cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (cydlynydd ADY); swyddogion arweiniol clinigol addysg dynodedig (DECLO) mewn byrddau iechyd a swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar mewn awdurdodau lleol.

Mae'r buddsoddiad uwch yn y grantiau ar gyfer arweinwyr trawsnewid hefyd yn adlewyrchu'r galwadau gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad am arweinyddiaeth strategol gref - ar lefel genedlaethol gan Lywodraeth Cymru a hefyd drwy ddarparu cymorth a chyngor uniongyrchol i awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, ysgolion, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar a byrddau iechyd. Cafwyd galwadau hefyd i gyflwyno cynlluniau gweithredu manwl a'u cyfleu i bob partner cyflenwi, a sefydlu trefniadau monitro effeithiol er mwyn sicrhau bod y broses o gyflwyno'r system newydd yn aros ar y trywydd iawn.

Bydd cyllid ar gyfer y swyddi rhanbarthol yn cael ei ddarparu i awdurdod lleol arweiniol ar ran yr awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth - ar sail consortia addysg ranbarthol. Bydd yr awdurdodau arweiniol yn cyflogi'r arweinwyr trawsnewid rhanbarthol yn uniongyrchol. Bydd Colegau Cymru yn cyflogi ac yn derbyn grant ar gyfer y swydd arweinydd trawsnewid addysg bellach.

Yn 2017-18, bydd pob un o'r pedwar awdurdod arweiniol yn derbyn dyraniad grant ychwanegol o £67,500. O 2018-19 i 2020-21, bydd pob awdurdod arweiniol yn derbyn £0.125 miliwn i dalu costau'r arweinwyr trawsnewid (gan gynnwys cyflogau a chostau cysylltiedig eraill) ac i ddarparu cymorth gweinyddol ac ariannol i'r arweinydd trawsnewid. Bydd y gyllideb sy'n weddill (£2.7 miliwn) yn cael ei dyrannu ar sail fformiwla, gyda phwysoliad o 70% ar gyfer nifer y disgyblion (5-15 oed) a phwysoliad o 30% ar gyfer y niferoedd mewn ysgolion.

Er y bydd y cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gyfer darparu hyfforddiant yn cael ei gydlynu gan yr arweinwyr trawsnewid rhanbarthol fel rhan o elfen cymorth ar gyfer gweithredu a thrawsnewid y rhaglen, bydd y deunyddiau a ddefnyddir i gyflenwi'r hyfforddiant yn cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o elfen codi ymwybyddiaeth y gyllideb. Mae hyn yn unol ag un o argymhellion allweddol y grŵp arbenigol ar hyfforddiant ADY - bod yn rhaid i'r hyfforddiant fod yn seiliedig ar gyfres genedlaethol a chyson o negeseuon am y system newydd, y dylid eu datblygu'n ganolog. Bydd y pecyn hyfforddi yn cynnwys modiwlau sy'n targedu ymarferwyr allweddol sydd â rolau penodol yn y system newydd. Bydd hefyd yn targedu arweinwyr sydd â chyfrifoldebau corfforaethol neu statudol o dan y Bil, gan amlygu negeseuon allweddol sy'n canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau cyfreithiol, eu parodrwydd a'u cynlluniau strategol ar gyfer gweithredu.

Felly mae'r gyllideb ar gyfer codi ymwybyddiaeth wedi'i chynyddu er mwyn ystyried y swm sylweddol o ddeunyddiau i'w datblygu ar gyfer gweithredu'r rhaglen hyfforddi. Mae hyn yn cynnwys caffael pecynnau e-ddysgu; deunyddiau hyfforddiant wyneb yn wyneb; fideos ac animeiddiadau; a chwrs hyfforddi'r hyfforddwr a fydd yn cefnogi cyflwyno'r rhaglen hyfforddi gynhwysfawr. Bydd elfen codi ymwybyddiaeth y rhaglen hefyd yn cynnwys creu adnoddau i godi ymwybyddiaeth o'r system newydd sy'n targedu plant, pobl ifanc, teuluoedd a'r cyhoedd.

***£100 miliwn ar gyfer gwella safonau mewn ysgolion***

Daw £10.1 miliwn o gyllideb y rhaglen drawsnewid o'n buddsoddiad ychwanegol o £100 miliwn ar gyfer gwella safonau mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys £9.85 miliwn i ariannu'r arweinwyr trawsnewid ADY rhanbarthol a darparu cyllideb iddynt ar gyfer hyfforddiant gweithredu a £0.25 miliwn i ddatblygu deunyddiau hyfforddiant ac ar gyfer cynnal arolygon o Gydlynwyr AAA a'r gweithlu arbenigol a fydd yn llywio'r dull o gyflwyno hyfforddiant a datblygiad ar gyfer y proffesiynau allweddol hyn.

Mae costau gweddill y rhaglen yn seiliedig ar ragdybiaeth gynllunio y bydd cyllideb ADY y llywodraeth yn parhau ar ei lefel bresennol hyd at 2020-21 (£2.786 miliwn yn 2017-18). Mae hyn yn amodol ar ystyriaeth a chytundeb o ran dyraniadau'r gyllideb yn y dyfodol.

***Costau sy'n gysylltiedig â'r Bil a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig***

Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad ar gyfnod 1: "Dylid diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn cynnwys y diwygiadau perthnasol i'r ffigurau" – mae'r Asesiad hwn wedi'i ddiwygio dros yr haf a derbyniodd y pwyllgor fersiwn wedi'i ddiweddaru ar 8 Medi. Cyflwynwyd fersiwn pellach gerbron y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar 14 Tachwedd.

Argymhellodd y pwyllgor hefyd bod "unrhyw Asesiad Effaith Reoleiddiol diwygiedig yn egluro a yw'r cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu at ddibenion y Bil". Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn cynnwys nifer o gostau, a fydd yn cael eu hysgwyddo'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â gweithredu'r Bil:

- Bydd £0.61 miliwn o'r costau hyn yn cael eu hariannu drwy'r rhaglen drawsnewid – grŵp gweithredu strategol a grwpiau arbenigol ADY (£0.01 miliwn); cydymffurfiaeth a monitro effaith (£0.21 miliwn); a datblygu hyfforddiant ac adnoddau i godi ymwybyddiaeth (£0.39 miliwn);

- Mae costau trawsnewid eraill Llywodraeth Cymru sydd wedi'u rhestru yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymwneud â chostau staff neu'n deillio o gyllidebau eraill megis y cyllid blynyddol ar gyfer Gyrfa Cymru, ac nid ydynt yn rhan o'r cyllid £20 miliwn ar gyfer y rhaglen trawsnewid ADY.

At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nid yw'r grantiau gan Lywodraeth Cymru wedi'u cynnwys oherwydd nid Llywodraeth Cymru sy'n ysgwyddo'r costau hyn yn uniongyrchol yn sgil y Bil, ond yn hytrach y partneriaid cyflenwi. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyllid grant i gefnogi sefydliadau wrth drawsnewid i'r system ddeddfwriaethol newydd a daw'r rhain o gyllid £20 miliwn y rhaglen trawsnewid ADY.

Mae'r cyllid grant dangosol yn cynnwys £10.4235 miliwn rhwng 2017-18 a 2020-21. Cyfanswm y grantiau ar gyfer yr arweinwyr rhanbarthol a thrawsnewid AB yn ystod y cyfnod hwnnw fydd £9.87 miliwn a £0.35 miliwn yn y drefn honno (yn ogystal â chost unigol ar gyfer y broses recriwtio ar gyfer y pum swydd o £0.038 miliwn yn 2017-18). Mae hefyd yn cynnwys cyllid grant i dalu am gostau gweithredu'r system ddeddfwriaethol newydd, a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a fydd yn gyfrifoldeb Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (£0.103 miliwn rhwng 2018-19 a 2019-20) ac Estyn (£0.0625 miliwn yn 2019-20).

Bydd y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cyllid grant yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion penodol i gefnogi gweithredu'r system ddeddfwriaethol newydd, yn unol ag argymhelliad y pwyllgor y "dylid clustnodi'r cyllid grant gweithredu anghenion dysgu ychwanegol a ddarperir i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod y defnydd ohono'n ymwneud yn benodol â rhoi rhwymedigaethau'r Bil ar waith"

Disgwylir i gyfanswm y gweithgareddau hyn sy'n gysylltiedig â'r Bil fod yn £11.0335 miliwn rhwng 2017-18 a 2020-21 (gweler tabl 2, atodiad 1). Mae'r gweithgareddau sy'n weddill yn y rhaglen drawsnewid yn cyfrannu at yr un nodau â'r Bil, sef sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn derbyn cefnogaeth i oresgyn y rhwystrau i ddysgu a'u bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn, fodd bynnag nid yw'r rhain wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â gweithredu'r fframwaith deddfwriaethol newydd.

Mae'r gweithgareddau trawsnewidiol ehangach hyn yn cynnwys, er enghraifft, prosiectau arloesi ADY sy'n datblygu atebion arloesol, amlasiantaeth er mwyn gwella gwasanaethau i ddysgwyr ag ADY; datblygu sgiliau gwasanaethau arbenigol awdurdodau lleol (er enghraifft, seicolegwyr addysg, athrawon cynghori arbenigol i ddysgwyr â nam ar eu clyw, nam gweledol neu nam amlsynhwyraidd) a'r rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth ar gyfer y sector dysgu seiliedig ar waith. Darparwyd manylion yr holl weithgareddau sy'n rhan o'r rhaglen i'r pwyllgor ym mis Mawrth.

***Trefniadau ar gyfer monitro gweithrediad***

Bydd y dull o fonitro'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn ystyried a yw rhanddeiliaid yn barod i'w weithredu, eu bod yn cydymffurfio â'r darpariaethau a nodir yn y Bil ac a yw'r Bil wedi cyflawni'r canlyniadau a'r effeithiau disgwyliedig. Cynhelir hyn cyn, yn ystod ac ar ôl y cam gweithredu.

Cyn y cam gweithredu, prif ffocws bydd asesu parodrwydd y partneriaid cyflenwi i weithredu'r system newydd. Rydym wedi dechrau drwy gomisiynu gwerthusiad gwaelodlin, sy'n cael ei gynnal gan Ymchwil Arad a Phrifysgol De Cymru. Yn fuan yn y flwyddyn newydd, bydd yr arweinwyr trawsnewid yn dechrau gweithio gyda'r awdurdodau yn eu rhanbarth, neu sefydliadau AB yn achos yr arweinwyr trawsnewid AB, i gynnal asesiadau parodrwydd. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ategu gan adolygiad o barodrwydd ysgolion i weithredu'r system ADY newydd. Bydd yr arweinwyr trawsnewid yn defnyddio'r dystiolaeth o'r ffynonellau hyn i ddatblygu cynlluniau gweithredu.


Yn ystod y cam gweithredu, bydd y wybodaeth am y cynnydd yn erbyn y cynlluniau gweithredu yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i monitro ar lefel genedlaethol drwy'r grŵp gweithredu strategol ADY. Bydd y grŵp gweithredu strategol ADY a'r arweinwyr trawsnewid newydd hefyd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i reoli trosglwyddiad y cohortau o ddysgwyr cymwys i'r cynlluniau datblygu unigol o fewn amserlenni penodol. Cyflwynir gwybodaeth reolaidd i Weinidogion ar hyn hefyd.

Bydd adolygiad ar ôl y cam gweithredu yn ystyried y graddau y mae'r Bil wedi cyflawni'r effeithiau disgwyliedig. Bydd hyn yn defnyddio gwerthusiad Arad fel gwaelodlin ar gyfer cymharu'r system newydd yn ei erbyn, wedi'i ategu gan dystiolaeth gan Estyn - data ystadegol - ac ymchwil gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys rhieni. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol maes o law.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi ac yn rhoi sicrwydd i'r pwyllgor ynglŷn ag ein buddsoddiad yn y rhaglen i drawsnewid y ffordd y mae cymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei gynllunio a'i ddarparu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Lynne Neagle AC, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yr eiddoch yn gywir,



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

***Tabl 2: Costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Bil***

| | **Gweithgarwch** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig fel costau trawsnewid Llywodraeth Cymru** | Grŵp gweithredu strategol a grwpiau arbenigol ADY | 5,000 | 5,000 | | | **10,000** | |
| | Parodrwydd, cydymffurfiaeth a monitro effaith | 80,000 | 130,000 | | | **210,000** | |
| | Datblygu deunyddiau sgiliau craidd/codi ymwybyddiaeth | 100,000 | 50,000 | 135,000 | 105,000 | **390,000** | **610,000** |
| **Heb eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig – grantiau i gefnogi partneriaid o ran y costau y byddant yn eu hysgwyddo drwy'r Bil** | Cymorth trawsnewid TAAAC | | 17,000 | 86,000 | | **103,000** | |
| | Cymorth trawsnewid Estyn | | | 62,500 | | **62,500** | |
| | Arweinwyr trawsnewid ADY rhanbarthol | 270,000 | 3,200,000 | 3,200,000 | 3,200,000 | **9,870,000** | |
| | Arweinydd trawsnewid AB | 35,000 | 105,000 | 105,000 | 105,000 | **350,000** | |
| | Recriwtio arweinwyr trawsnewid | 38,000 | | | | **38,000** | **10,423,500** |
| | **Cyfanswm** | **528,000** | **3,507,000** | **3,588,500** | **3,410,000** | **11,033,500** | |

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA - L/KW/0871/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCYPE@cynulliad.cymru

15 Rhagfyr 2017

Annwyl Lynne,

Ym mis Medi, ysgrifennodd cyn Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes atoch i roi diweddariad ar weithrediad y rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac ymrwymodd i wneud hynny bob chwarter; roedd hyn mewn ymateb i ail argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei adroddiad cam 1 ar Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Y llythyr hwn yw'r ail o'r diweddariadau hyn. Darperais gopi hefyd o'm llythyr at y Pwyllgor Cyllid ar 11 Rhagfyr ar y dadansoddiad o'r pecyn buddsoddi £20 miliwn i gyflawni'r rhaglen.

**Deddfwriaeth a Chanllawiau Statudol**

Roedd hi'n fraint cael helpu i lywio'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drwy ei gamau olaf, ac roeddwn yn falch iawn ei fod wedi'i basio'n unfrydol gan y Cynulliad ddydd Mawrth 12 Rhagfyr, flwyddyn union ar ôl ei gyflwyno yn 2016.

Hoffwn ddiolch eto i'ch Pwyllgor am roi ystyriaeth drylwyr iddo gydol y broses ddeddfu a gryfhaodd wydnwch y Bil. Rwy'n hyderus y bydd y ddeddfwriaeth hon yn helpu i greu gwell system ar gyfer cefnogi rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed.

Wrth symud ymlaen, gan ragweld y bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol, bydd ein ffocws yn 2018 yn symud i'r is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys ymgynghoriad yn yr hydref ar rai o'r rheoliadau drafft ac iteriad nesaf y Cod ADY drafft, Yna, bydd y rhain

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn destun craffu gan y Cynulliad. Rhagwelaf y bydd y Cod terfynol yn cael ei gyhoeddi ddiwedd 2019.

**Gweithredu/cymorth pontio**

Ar 11 Rhagfyr cyhoeddais grynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar weithrediad y Bil law yn llaw â'r dull arfaethedig. Bydd dysgwyr sydd â Datganiadau cyfredol yn trosglwyddo i'r system newydd o fewn dwy flynedd, a phob dysgwr arall sydd â chynlluniau anstatudol yn cael eu trosglwyddo o fewn tair blynedd. Mae hyn yn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid o'n hymgynghoriad ar opsiynau i'w rhoi ar waith.

Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio nawr i ddatblygu a choethi'r canllawiau ar bontio ar gyfer partneriaid cyflenwi, a fydd yn nodi canllawiau manwl i gefnogi gweithrediad. Bydd hyn yn cynnwys amserlenni manwl ar gyfer cyflwyno cynlluniau datblygu unigol i bob cohort o ddysgwyr yn raddol. Datblygir y canllawiau mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a bydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad y flwyddyn nesaf. Yn 2018 byddwn yn cynnal mwy a mwy o weithgareddau wrth i ni symud i'r cyfnod gweithredu, gan gynnwys cymorth a her ar gyfer partneriaid i baratoi ar gyfer rhoi'r system newydd ar waith.

Bydd y pum arweinydd trawsnewid ADY yn dechrau ar eu gwaith yn y Flwyddyn Newydd ac yn gyfrifol am gefnogi partneriaid cyflenwi i gynnal asesiadau parodrwydd a datblygu cynlluniau gweithredu. Bydd y gwaith ymbaratoi yn cael ei ategu gan adolygiad thematig y bydd Estyn yn ei gynnal, a fydd yn pwyso a mesur i ba raddau y mae ysgolion cynradd ac uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr addysg ar wahân i'r ysgol yn ymwybodol o'r diwygiadau sy'n cael eu cyflwyno drwy'r Bil ac yn paratoi ar gyfer eu rhoi ar waith.

Ym mis Medi 2017, cynhaliodd Grŵp Gweithredu Strategol ADY ei gyfarfod olaf ar ei ffurf bresennol. Mae'r grŵp wedi bod yn hollbwysig hyd yma yn ad-drefnu'r dull gweithredu a'r rhaglen trawsnewid yn gyffredinol. Maent wedi cytuno wrth i ni symud ymlaen i gyfnod gweithredu'r diwygiadau, y bydd grŵp lefel uwch llai o faint yn goruchwylio gwaith Arweinwyr Trawsnewid ADY ac yn cynorthwyo gyda'r agweddau cysondeb o ran gweithredu, cydweithio a rhannu arferion da.

Bydd yr wyth grŵp arbenigol a sefydlwyd gan Grŵp Gweithredu Strategol ADY yn parhau i weithio tuag at y gyfres o gamau y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r templed Cynllun Datblygu Unigol, deunyddiau codi ymwybyddiaeth a threfniadau newydd ar gyfer ymarferwyr iechyd.

**Datblygu'r gweithlu**

Mae gan arbenigwyr gyfraniad allweddol o ran helpu dysgwyr ag ADY. Mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Uned Ddata Cymru, mae penaethiaid awdurdodau lleol wedi'n helpu ni i gael darlun cliriach o weithlu gwasanaethau cymorth arbenigol awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

Rwyf wedi cytuno i ddyrannu £352,000 o gyllideb datblygu'r gweithlu ADY i'w ddosbarthu fel arian grant i awdurdodau lleol dros y 2 flwyddyn ariannol nesaf (2018-19 and 2019-20) er mwyn helpu gyda hyfforddiant ôl-raddedig athrawon arbenigol a

chynghorol awdurdodau lleol dysgwyr â nam ar y golwg, nam ar y clyw a nam amlsynnwyr. Gellir defnyddio'r arian hwn hefyd er mwyn hwyluso hyfforddaint Braille ac Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer staff arbenigol awdurdodau lleol.

Er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus o Seicolegwyr Addysg, rydym yn ariannu rhaglen hyfforddiant proffesiynol Doethuriaeth Prifysgol Caerdydd mewn Seicoleg Addysg (DEdPsy). Rwyf wedi cytuno i barhau â threfniadau cyfredol DEdPsy am gohort pellach o fis Medi 2018 ymlaen, tra bod trafodaethau am drefniadau 2019-20 ymlaen yn mynd rhagddynt.

Yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor, rydym wedi cynnal gwaith pellach ar gwmpasu rôl y Cydlynydd ADY. Mae fy swyddogion wedi cydweithio'n agos gydag amrywiaeth o randdeiliaid i nodi gofynion sgiliau a hyfforddiant y rôl bwysig hon. Rydym yn rhagweld y bydd Cydlynwyr ADY yn darparu arweiniad strategol ac yn bwynt cyswllt cyntaf o fewn y lleoliad addysg, ar gyfer cyngor ac arweiniad ychwanegol a phroffesiynol.

**Codi ymwybyddiaeth**

O ganlyniad i'r adborth i'r ymgynghoriad ar weithredu'r Bil, rydym wedi comisiynu Eliesha Cymru i ddatblygu cyfres o ddeunyddiau dysgu a hyfforddiant er mwyn helpu i roi rhaglen trawsnewid ADY ar waith, gan gynnwys y Bil. Byddant yn sail i hyfforddiant gweithredu amlasiantaeth unwaith y bydd y Cod a'r is-ddeddfwriaeth mewn grym. Bydd yn helpu ymarferwyr i ddeall a pharatoi ar gyfer y newidiadau a gaiff eu cyflwyno dan y drefn newydd ac yn helpu i sicrhau cysondeb o Fôn i Fynwy.

Cafodd asesiadau tystiolaeth cyflym a chanllawiau hygyrch ar ymyriadau effeithiol i gefnogi plant a phobl ifanc ag amrywiaeth o ADY eu comisiynu yn gynharach eleni. Mae'r asesiadau tystiolaeth cyflym o'r ymyriadau i helpu plant a phobl ifanc ag ADHD ac ASD hefyd bron yn barod. Defnyddiwyd tystiolaeth o'r asesiadau i ddatblygu canllawiau hygyrch a chynhaliwyd gweithdai gydag ymarferwyr a rhieni er mwyn deall eu hoffterau o ran strwythur a chynnwys y canllawiau.

**Polisi ategol / parhad busnes**


Mae'r elfen hon o'r rhaglen yn canolbwyntio ar sicrhau bod y system AAA ac LDD gyfredol yn gweithio'n esmwyth tan y daw'r system ADY newydd i rym. Wrth i ni nesáu at y broses weithredu, mae'r agwedd hon ar y rhaglen yn canolbwyntio fwyfwy ar gynnal parhad busnes.

Er mwyn cefnogi'r broses lleoliad arbenigol ôl-16, rwyf wedi cytuno i gyhoeddi canllawiau technegol ar gyfer sefydliadau addysg bellach arbenigol. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor clir ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ar rôl sefydliadau Addysg Bellach wrth gyflwyno'r ddarpariaeth ôl-16 i bobl ifanc. Hefyd, rwyf wedi cytuno i gyhoeddi canllawiau technegol diwygiedig i Gyrfa Cymru. Byddwn yn defnyddio gweithdai i ategu'r canllawiau ac archwilio sut mae'n gweithio'n ymarferol.

Gobeithio y gallwn barhau i weithio'n effeithiol yn ystod y cam gweithredu ar yr hyn sy'n becyn trawsnewid o bwys a fydd o fudd i'r bobl mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Simon Thomas AC, Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid a Mick Antoniw AC, Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Rheoli Deddfwriaethol.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg